

Ein Cyf / Our Ref: Petitions P-06-1327

Dyddiad / Date: 28 Gorfennaf 2023

Gofynnwch am / Please ask for: Sharon Davies

Llinell uniongyrchol / Direct line: 07917275203

Ebost / Email: Sharon.Davies@wlga.gov.uk

Annwyl Mr Sargeant,

## Deiseb P-06-1327 cyfleusterau Canolfan Hamdden am ddim i blant

**Diolch** am eich llythyr dyddiedig 13 Mehefin yn gofyn am yr amcangyfrif gorau o'r gost o ddarparu gwasanaethau canolfan hamdden am ddim i bobl ifanc, tra'n ystyried y ddeiseb uchod.

Mae CLILC yn gefnogol i'r bwriad, fodd bynnag, mae'n gwestiwn arbennig o anodd i'w ateb, ond byddai'n cynnig yr arsylwadau canlynol:

- Bydd darparu gweithgareddau am ddim yn cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau hamdden. Byddai angen i unrhyw gyllid ar gyfer defnydd plant a phobl ifanc olrhain y twf yn eu cyfranogiad er mwyn sicrhau bod costau'n cael eu talu. Er bod niferoedd yn cynyddu, mae llawer o ddarparwyr yn dal i weithredu gyda lefelau cyfranogiad isod lle'r oeddent cyn pandemig Covid.
- Mae gwir gost darparu gweithgareddau hamdden yn uwch na'r pwynt mynediad, sy'n cael cymhorthdal. Er mwyn sicrhau bod cynnig o'r fath yn gynaliadwy, yna dylid cymhwyso'r egwyddor o adennill costau llawn.
- Bydd mwy o ddefnydd o asedau hamdden yn effeithio ar eu gofyniad i atgyweirio, cynnal a chadw ac amnewid. Mae cost i'r effeithiau hyn, a dylid eu cynnwys mewn unrhyw hafaliad cyllido.
- Byddai angen i unrhyw gyllid cymeradwy ar gyfer y math hwn o gynnis fod yn gysylltiedig â phwysau cyllidebol blynyddol. Ni allai fod yn llinell wastad fel y Rhaglen Nofio Am Ddim na'r Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Cenedlaethol (CAYC). Mae hyn yn arbennig o berthnasol gyda'r pwysau presennol ar

gyllidebau hamdden lle mae incwm yn un o'r prosesau allweddol wrth ddelio â phwysau ariannol.

- Ni fydd canolbwyntio ar gost yn mynd i'r afael â'r holl rwystrau sy'n penderfynu a yw person ifanc yn gorfforol weithgar, dylid hystyried hefyd:

- a) **Mynediad i gyfleoedd**
- b) **Darparu cyfleusterau yn arbennig mewn cyngor gwledig**
- c) **Argaeledd trafnidiaeth**
- d) **Hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau.**

- Er mwyn darparu "ffigwr bras" byddai angen cyflwyno rhai paramedrau fel bod elfen o gysondeb i'r wybodaeth a ddarperir.

- Hoffem gynnig y paramedrau canlynol i'w hystyried:

- e) **Eglurhad o'r hyn a olygir fel "Canolfan Hamdden," a yw'n cynnwys Pyllau Nofio annibynnol? Beth am ddefnyddio caeau glaswellt a chaeau tyweirch artiffisial?**
- f) **A yw'r cwmpas yn cynnwys cyfleusterau hamdden y tu allan i weithrediad awdurdodau lleol e.e. cyfleusterau a weithredir gan y gymuned?**
- g) **Ystod oedran y Bobl Ifanc sy'n cael eu hystyried: ai 0-18 neu 0-16 neu 7-16 ac ati?**
- h) **Grwpiau gweithgareddau / Defnydd:**

**i. Gweithgareddau a ddarperir yn uniongyrchol gan y darparwr:**

1. Dysgu nofio
2. Gweithgaredd Dyfrol Arall
3. Gweithgareddau Iau (Talu a Chwarae)
4. Rhaglenni Gwyliau Ysgol
5. Pecynnau Aelodaeth Iau
6. Cefnogaeth i athletwyr talentog.

**ii. Gweithgareddau a ddarperir gan Grwpiau Cymunedol / Defnyddwyr Cyfleusterau**

1. Taliadau Llogi Cyfleuster.


**iii. A yw'r defnydd o'r ysgol yn cael ei gynnwys?**

1. Cefnogi gweithgareddau cwricwlaidd.
2. Cefnogi gweithgareddau allgyrsiol.

Rydym yn croesawu diddordeb y Pwyllgor Deisebau yn y maes hwn a byddem yn croesawu'r cyfle i ddarparu'r wybodaeth briodol unwaith y bydd yr arsylwadau uchod wedi'u hystyried.

Rwy'n gobeithio y bydd hyn o gymorth i drafodaethau'r Pwyllgor.

Yn ddiffuant,



Cyngh. Andrew Morgan OBE  
Arweinydd CLILC